Llywodraeth Cymru
Welsh Government

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

**Cwestiynau Cyffredin ar**

**Asesu Anghenion a Risgiau Clinigol y Geg (ACORN)**

## 1. Beth yw ACORN?

Mae ACORN yn becyn cymorth a ddyluniwyd gan weithwyr deintyddol proffesiynol yn ystod Rhaglen Ddiwygio'r Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol (GDS) sy'n cefnogi timau deintyddol i gynnal asesiad cynhwysfawr o risgiau ac anghenion mewn modd systematig. Mae'n crynhoi canfyddiadau o hanes ac archwiliadau clinigol y claf. Mae'n cefnogi practisiau i roi cyngor sydd wedi ei deilwra i'r claf a chytuno ar gynllun gofal deintyddol blynyddol ataliol.

## 2. Pa mor aml y dylid cwblhau'r ACORN?

Dylid cynnal ACORN yn drylwyr unwaith y flwyddyn h.y. bob 12 mis.

## 3. A oes angen i mi gynnal ACORN pan fydd claf yn mynd am ofal deintyddol brys?

Nac oes.

## 4. A yw ACORN yn ymwneud â thicio blychau ar yr FP17W er mwyn cyflwyno data?

Nac ydy. Nid ymarfer ticio blychau yw ACORN. Er y gellir casglu'r 8 pwynt data ACORN ar FP17Ws a gyflwynwch ar gyfer cleifion i ddeall proffil 'risg ac anghenion' poblogaeth eich practis.

Amcanion allweddol defnyddio pecyn cymorth ACORN yw:

- Deall beth sy'n bwysig i gleifion
- Cyfleu lefel y risg a'r angen i gleifion (neu eu gofalwyr) yn effeithiol a gweithio gyda chleifion i wneud iddynt ddeall newidiadau y mae angen iddynt eu gwneud er mwyn atal clefydau deintyddol
- Cytuno ar y canlyniadau iechyd y geg y mae cleifion am eu cyflawni dros gyfnod o amser neu ar ôl cwrs o ofal deintyddol.
- Defnyddio egwyddorion gwneud penderfyniadau ar y cyd wrth lunio cynllun gofal deintyddol ataliol
- Monitro newidiadau yn 'risgiau ac anghenion' cleifion sy'n derbyn gofal parhaus gan y gwasanaeth/practis.

## 5. A yw cronfa ddata ACORN yn cael ei monitro?

Ydy, ar sail yr 8 pwynt data ACORN ar FP17W a gyflwynwyd gan eich practis, bydd Awdurdod Gwasanaeth Busnes (BSA) y GIG yn dadansoddi data ac yn darparu proffil 'risgiau ac angen' o'ch practis ar e-Den. Dadansoddir data hefyd i fonitro pa ganran o'ch cleifion arferol sy'n derbyn ACORN.

Cysylltwch ag Awdurdod Gwasanaeth Busnes y GIG os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch cofnodi data FP17Ws a'r data a ddangosir ar e-Den - nhsbsa.dentalinsight@nhs.net.

## 6. Sawl math o becynnau cymorth ACORN sydd ar gael?

Dim ond un math o becyn cymorth ACORN sydd, sef dull safonol o asesu risgiau ac anghenion iechyd y geg ym mhractisau deintyddol y GIG yng Nghymru.

Gellir dod o hyd i ganllawiau ACORN yma Diwygio Deintyddol - Gofal Sylfaenol Un (gig.cymru).

## 7. A ellir cwblhau ACORN o bell?

Gellir cwblhau llawer ohono o bell. Yn sicr, gellir cwblhau elfen asesiadau risg yr ACORN o bell naill ai dros y ffôn neu drwy fideo.

**8. A ddylwn i gynnig apwyntiad i gleifion sy'n derbyn gofal deintyddol brys er mwyn dod yn ôl i'r practis i gael asesiad llawn?**

Dylech. Disgwylir y bydd claf nad yw'n derbyn gofal deintyddol rheolaidd gan bractis yn cael cynnig cyfle i ddod yn ôl ar gyfer ACORN a chynllunio gofal deintyddol ataliol sydd wedi ei deliwra i'r claf yn flynyddol. Os bydd claf yn gwrthod y cynnig, dylai practis nodi hyn ar gofnod y claf.

**9. A oes hyfforddiant ar gael ar sut i gynnal ACORN?**

Oes, mae hyfforddiant ar-lein ar gael gan AaGIC (https://ytydysgu.heiw.wales/go/qwlmhn). Mae canllawiau ACORN ar gael ar wefan PCOne.

**10. Os yw claf yn dangos yn glir bod ei ymddygiad wedi newid o fewn y 12 mis ar ôl ACORN, a ellir ailadrodd ACORN yn gynt na 12 mis?**

Dylid cynnal ACORN yn drylwyr unwaith y flwyddyn. Yn dilyn ACORN a chynllun gofal deintyddol blynyddol, mae'n bosibl y bydd angen i gleifion ddod yn ôl ar gyfer apwyntiadau adolygu. Gellir cofnodi unrhyw welliant mewn risgiau ac angen a welir yn yr ymweliadau adolygu hynny ar nodiadau cleifion ond nid oes angen cwblhau ACORN llawn. Defnyddir y pecyn cymorth ACORN er mwyn ailadrodd asesiad risgiau ac anghenion cynhwysfawr ymhen 12 mis o'r ACORN blaenorol.

**11. Fel practis deintyddol y GIG, a allaf wrthod cynnal ACORN ond cymryd rhan yn Rhaglen Ddiwygio'r Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol?**

Na allwch. Mae ACORN yn rhan hanfodol o Raglen Ddiwygio'r Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol. Ar gyfer practisiau nad ydynt am fod yn rhan o Raglen Ddiwygio'r Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol, y sefyllfa gytundebol ddiofyn yw cyflawni targed Unedau Gweithgarwch Deintyddol (UDA) o dan y Rheoliadau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol/Gwasanaethau Deintyddol Personol (PDS) presennol. Disgwylir y bydd y rhan fwyaf, os nad pob un, o bractisiau'r GIG yn manteisio ar y cynnig o weithio o dan amodau nad ydynt yn amodau UDA fel rhan o Raglen Ddiwygio'r Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol sy'n ailgychwyn ar 1 Ebrill 2022. Trafodwch y mater gyda'ch bwrdd iechyd, os oes angen.

**12. Mae'n debyg bod Atal a Gwella Ansawdd yn eithaf pwysig wrth ddarparu gwasanaethau deintyddol. A oes unrhyw hyfforddiant ar gael?**

Oes, mae cyrsiau hyfforddi am ddim (Gwneud i waith ataliol weithio'n ymarferol, Cynllun Gwên yn y ddeintyddfa a chyrsiau DPP perthnasol eraill) ar gael gan AaGIC. Gallwch hefyd gysylltu â'ch Addysgwr Deintyddol Gwella Ansawdd i gael cymorth ar unrhyw brosiectau neu fentrau gwella ansawdd yn HEIW.DentalQI@Wales.nhs.uk .